



Datganiad ar y Cyd i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru

**Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau
Cymdeithas Genedlaethol Prifathrawon
Undeb Addysg Cenedlaethol
UCAC
Voice**

Cyflog athrawon - barn unedig y proffesiwn

Mae ein sefydliadau, sy'n cynrychioli mwyafrif llethol o athrawon ac arweinwyr ysgolion yng Nghymru, yn amlinellu isod ein safbwynt unedig ar faterion allweddol i'r IWPRB wrth iddo baratoi i ymateb i gylch gwaith y Gweinidog Addysg.

Mae mater tâl athrawon yn uchel ar yr agenda gwleidyddol. Ac felly y dylai fod - mae athrawon ac arweinwyr ysgolion wedi gweld gwir werth eu cyflog yn cael ei dorri'n ddidrugaredd er 2010, gyda thoriadau o ryw 15% yn erbyn chwyddiant RPI. Mae'r effaith andwyol ar athrawon, arweinwyr ysgolion, ysgolion a myfyrwyr yn amlwg i bawb ei gweld.

Mae ein sefydliadau yn unedig yn ein penderfyniad bod yn rhaid gwrthdroi'r toriadau termau real hyn ar frys.

Rhaid cymhwysu codiad cyflog sylweddol uwch na chwyddiant sy'n ddigonol i ddechrau adfer ar frys y toriadau termau real a'r difrod i gyflog athrawon ac arweinwyr ysgolion er 2010, a hynny i bob graddfa gyflog a lwfans a rhaid i Lywodraeth Cymru ei ariannu'n llawn.

Dyma'r arwydd clir y mae angen ei anfon i'r proffesiwn i danlinellu ei werth a dechrau mynd i'r afael â'r problemau recriwtio a chadw y mae'r proffesiwn yn eu hwynebu. Byddai'n gam cyntaf pwysig tuag at leoli addysgu fel opsiwn gyrfda deniadol i raddedigion newydd a chynnig rhywfaint o brawf diriaethol i athrawon sy'n gwasanaethu ac arweinwyr ysgolion bod eu cyfraniad at ddyfodol plant y genedl yn cael ei werthfawrogi.

Yr 2^{il} Gylch Gwaith

Rhaid i ni sicrhau bod lefelau cyflog a'r strwythur tâl yn cefnogi dilyniant gyrfaol a chadw. Nid yw diwygio tameidiog i strwythur tâl athrawon yn ddigonol a bydd unrhyw ddull "targedu" bondigrybwyll ond yn creu problemau newydd.

Mae pob athro ac arweinydd ysgol yn haeddu codiad cyflog, ac dyma arwydd clir arall sydd angen ei anfon i fynd i'r afael â'r problemau recriwtio a chadw y mae'r proffesiwn yn eu hwynebu. Felly rydym yn annog yr IWPRB i gynnal adolygiad cyfannol o'r strwythur cyflog, er mwyn creu cynnig cadarnhaol ar gyfer addysgu fel dewis gyrfa i raddedigion.

Mae darnio'r strwythur tâl cenedlaethol a gosod Cyflog sy'n Gysylltiedig â Pherfformiad wedi cyfrannu at broblemau cyflog athrawon.

Mae hyn yn tanlinellu'r angen i adfer y graddfeydd cyflog cenedlaethol, gan gynnwys pwyntiau rhagnodedig i'r Prif raddfeydd cyflog a'r rhai Uchaf ac Arweinyddiaeth, cludadwydd cyflog a system arfarnu gadarn nad yw'n gysylltiedig â chyflog, fel bod yr athrawon sy'n gwasanaethu a darpar athrawon ac arweinwyr ysgolion yn gwybod y cânt eu prisio o fewn strwythur tâl teg a thryloyw.

Byddai strwythur o'r fath yn parhau i gynnwys hyblygrwydd sy'n caniatáu i gyflogwyr sefydlu polisiau tâl sy'n addas i'r diben a phennu lefelau cyflog athrawon o fewn terfynau penodol wrth ystyried cymhlethdodau pob rôl a chyd-destun eu hysgol unigol.

Cyflenwad athrawon - effaith toriadau cyflog

Yn ei Adroddiad Cyntaf, nododd yr IWPRB eu pryderon ynghylch recriwtio a chadw athrawon ac arweinwyr. Daeth yr IWPRB i'r casgliad bod y dirywiad cyson yng nghystadleurwydd cyflog athrawon yn cyfrannu'n sylweddol at y problemau recriwtio a chadw staff. Er i'r dyfarniad cyflog o 2.4% a argymhellwyd gan yr IWPRB gael ei gynyddu i 2.75% gan y Llywodraeth, nid oedd hyn, fodd bynnag, yn ddigonol i ddechrau mynd i'r afael â'r problemau hyn. Dim ond ychydig yn uwch na chwyddiant RPI ydoedd ac yn sicr nid oedd yn galluogi gwrthdroi'r dirywiad yng nghystadleurwydd cyflog athrawon. Roedd hyn yn dilyn penderfyniad Llywodraeth San Steffan i dorri'n ôl y 3.5% a argymhellwyd gan y STRB yn 2018.

Mae'r dystiolaeth ddiweddaraf yn dangos bod y problemau recriwtio a chadw yn parhau i dyfu ar bob lefel o'r proffesiwn. Mae problemau recriwtio yn parhau, ond mae'r problemau cadw athrawon hefyd yn parhau i waethygu. Mae ein sefydliadau yn glir na ellir datrys yr argyfwng recriwtio a chadw athrawon, sydd wedi datblygu a dyfnhau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, heb weithredu effeithiol i adfer y toriadau mewn termau real i gyflogau athrawon ac i wella'n sylweddol ar safle addysgu yn y farchnad lafur i raddedigion.

Mae Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth San Steffan dros Addysg wedi datgan ei fwriad i gynyddu tâl cychwynnol athrawon i £30,000 yn genedlaethol erbyn Medi 2022. Croesawir hyn, ac edrychwn ymlaen at weld cynigion Llywodraeth Cymru yn unol â'u hymrwymiad i beidio â niweidio athrawon Cymru ac arweinwyr ysgolion yn dilyn datganoli cyflog, ond mae angen gweithredu ar frys i wella lefelau cyflog a rhagolygon cyflog i'r holl athrawon ac arweinwyr ysgolion. Felly mae'n rhaid i unrhyw godiadau i gyflog cychwynnol ddod law yn llaw â chodiadau cyfatebol i holl bwyntiau a lwfansau athrawon, ochr yn ochr â diwygio i ddarparu gwobrau priodol o fewn strwythur tâl teg a thryloyw.

Mae'r problemau recriwtio a chadw yn effeithio ar y proffesiwn cyfan ac mae angen ymateb cyfannol i ailsefydlu atyniad addysgu fel dewis gyrfa tymor hir.

Cyllid ysgolion - toriadau heb eu gwrthdroi

Mae ysgolion wedi dioddef toriadau sylweddol mewn termau real er 2010. Rhwng 2010-11 a 2018-19, mae gwariant gros wedi'i gyllidebu ar ysgolion wedi codi gan 4.4% (£108 miliwn) (termau arian parod). Mae hyn yn ostyngiad o 7.9% mewn termau real. (Ar brisiau 2017-18, gan ddefnyddio datchwyddydd cynnyrch domestig gros Trysorlys EM, Mehefin 2018.)

Mae ysgolion hefyd yn poeni fwyfwy am y gwrthddweud rhwng honiad Llywodraeth Cymru bod codiadau cyflog yn cael eu hariannu'n llawn ac yna'n darparu cyllid ar gyfer hyn i Awdurdodau Lleol nad ydynt yn ei drosglwyddo yn llawn i ysgolion. Ni all y sefyllfa hon barhau yng Nghymru. Mewn rhannau eraill o'r DU mae'r cyllid hwn wedi'i warantu i ysgolion.

Rydym yn galw ar yr IWPRB i wrthod cael ei gyfyngu gan fethiant Llywodraeth Cymru i adfer y toriadau cyllid. Rhaid i'r IWPRB wneud yr argymhellion sydd eu hangen i wella cyflog athrawon mewn termau real ac mewn perthynas â gweithwyr proffesiynol graddedig eraill a mynd i'r afael â'r argyfwng recriwtio a chadw.

Credwn yn gryf nad yw fforddiadwyedd yn rhan o'r cylch gwaith ar gyfer yr IWPRB ac o'r herwydd dylent wrthsefyll unrhyw ymdrechion gan Lywodraeth Cymru i gyfyngu ar eu penderfyniadau a thrwy hynny orfodi cap tâl de-facto.

Casgliad

Bydd pob un o'n sefydliadau yn cyflwyno tystiolaeth ar wahân i'r IWPRB ar y materion sydd wedi'u cynnwys yn llythyr cylch gwaith y Gweinidog Addysg i'r IWPRB. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, y bydd y setiau ar wahân hyn o dystiolaeth yn cael eu hategu gan gydnabyddiaeth pob un o'n sefydliadau o'r angen am weithredu ar frys i fynd i'r afael â'r argyfwng recriwtio a chadw trwy wella lefelau cyflog a rhagolygon ar gyfer yr holl athrawon a'r arweinwyr ysgol.

Y cam mwyaf ymlaen wrth ddatrys yr argyfwng cyflenwad athrawon fyddai torri cyfraddau yr athrawon sy'n gadael yn gynnar yn eu gyrfa. Er ein bod yn cefnogi'r cynnig am dâl cychwynnol uwch, heb godiadau cyflog cymesur i gyfraddau cyflog y blynyddoedd dilynol ac i bob pwynt cyflog athrawon, gallai'r argyfwng cyflenwad athrawon waethygu.

Rydym yn galw ar yr IWPRB i adlewyrchu yn ei argymhellion farn unedig y proffesiwn addysgu.
Ebrill 2020